**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref MA/LG/5329/19

Elin Jones, AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 October 2019

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y caiff adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n pennu'r rheol bod offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y'u gosodir, ei thorri er mwyn cyflwyno Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019. Atodir y Memorandwm Esboniadol er gwybodaeth.

Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019 yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu pwyntiau technegol a nodwyd mewn adroddiad drafft a luniwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Ar 8 Hydref 2019, gosodwyd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1316 (Cy. 228)) (Rheoliadau 2019) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rheoliadau 2019 yn gweithredu, o ran Cymru, Cyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2018/350 sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2001/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asesiadau risg amgylcheddol ar gyfer organeddau a addaswyd yn enetig. Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflawni hynny drwy ddiwygio Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/3188) (Cy. 304) (Rheoliadau 2002).

Lluniodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLAC) adroddiad drafft ar Reoliadau 2019 ar 16 Hydref 2019. Nodwyd nifer o bwyntiau technegol yn yr adroddiad. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad drafft yn cytuno â nifer o'r pwyntiau a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

godwyd, a chytunwyd i gywiro pwyntiau penodol a nodwyd gan y Pwyllgor. Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud hynny.

Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019 (fel y gwnaeth Rheoliadau 2019) yn dibynnu ar y pwerau a geir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Gan hynny, mae angen gwneud y Rheoliadau hyn ar frys cyn y diwrnod ymadael. Mae un o’r diwygiadau a wneir gan Reoliadau 2019 yn ymwneud â Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a’u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019 (Rheoliadau Ymadael â’r UE 2019). Mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol a’u Symud ar draws Ffin) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2019 (Rheoliadau Diwygio Ymadael â’r UE Rhif 2 2019) yn cael eu drafftio ar hyn o bryd. Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Ymadael â’r UE 2019, a rhagwelir y cânt eu gosod ar 28 Hydref, gyda dyddiad dod i rym (ar gyfer rhai darpariaethau) yn union cyn y diwrnod ymadael, ac (ar gyfer darpariaethau eraill) ar y diwrnod ymadael.

Gan fod Rheoliadau Diwygio 2019 a Rheoliadau Diwygio Ymadael â’r UE Rhif 2 2019 ill dau yn diwygio Rheoliadau Ymadael â’r UE 2019, er mwyn sicrhau eglurder – ar y llyfr statud ac er mwyn hwyluso dealltwriaeth darllenwyr lleyg – ystyrir ei bod yn briodol bod y diwygiadau a wneir gan Reoliadau Diwygio 2019 yn dod i rym yn gyntaf. Daw Rheoliadau 2019 i rym ar 30 Hydref, ac mae angen i Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Diwygio) (Cymru) (Diwygio) 2019 ddod i rym cyn hynny. Y dyddiad diweddaraf y dylai’r Rheoliadau hyn ddod i rym yw 29 Hydref. Mae angen torri’r rheoli 21 o ddiwrnodau er mwyn cyflawni hyn.

Lluniwyd Memorandwm Esboniadol ac fe’i osodwyd, ynghyd â’r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd